O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 529 (Cy.74)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Y Gerbytffordd tua'r De rhwng Cylchfan Abercynon a Chyfnewidfa Broadway, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed *24 Chwefror 2011*

Yn dod i rym *1 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Caerdydd - Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mawrth 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Y Gerbytffordd tua'r De rhwng Cylchfan Abercynon a Chyfnewidfa Broadway, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw:

i. y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r de cefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o farciau ildio'r ffordd ymuno tua'r de wrth Gylchfan Abercynon i farciau ildio'r ffordd ymadael tua'r de wrth Gylchfan Broadway;

ii. y darn hwnnw o'r ffordd ymuno tua'r de sydd wedi ei leoli mewn man i'r de o Dŷ Trevithick, Pontypridd, sy'n ymestyn o allanfa'r A4054 i'r lle y mae'n uno â'r brif gerbytffordd tua'r de y gefnffordd;